



# PECYN ATHRAWON 2017

Mae addysg yn bwerus ac yn drawsffurfiol, a hynny ar gyfer plant unigol a'u teuluoedd, ond hefyd ar gyfer cymunedau cyfan, gwledydd a'r byd.

Dychmygwch bŵer byd lle mae pob plentyn yn mynychu ysgol – yn dysgu ac yn uchelgeisiol.

Mae arweinwyr y byd wedi addo addysg o safon i bob plentyn yn y byd. Ond mae rhan allweddol o'r pos ar goll – yr arian i dalu am yr addysg hon. Mae hyn yn golygu bod 263 miliwn o blant yn colli allan ar addysg ysgol ledled y byd, ac nid yw llawer o'r rheiny sy'n mynychu ysgol yn dysgu unrhyw beth.

2017 yw'r flwyddyn i newid yr argyfwng hwn o ran ariannu addysg.

- Ychwanegwch eich darn – dewch â'r ymgyrch Danfona fy Ffrind i'r Ysgol i'ch ystafell ddosbarth.
- Trefnwch gyfarfod â'ch AS a galwch ar lywodraeth y DU i gynyddu ei buddsoddiad mewn addysg o amgylch y byd.

Mae'r Pecyn Athrawon hwn yn cynnwys popeth y mae arnoch ei angen i annog eich myfyrwyr i gymryd rhan.



# MAE ADDYSG YN BWERUS

Mae buddion addysg yn llawer mwy na'r costau – gall addysg roi sefydlogrwydd i blant sydd wedi'u dadleoli, agor llwybrau allan o

dlodi, lleihau'r tebygolrwydd o ryfel a gwrthdaro, a chyfrannu at blaned fwy iach. Mae'n hanfodol ar gyfer twf hirdymor, ac yn allweddol er mwyn cyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae achos clir ac ysgubol dros fuddsoddi mewn addysg.

Erbyn hyn, deëllir yr hyn sy'n gweithio orau o ran gwella dysgu yn well nag erioed o'r blaen, ac mae arweinwyr y byd wedi gwneud addewid clir i sicrhau bod pob plentyn yn y byd yn cael addysg o safon erbyn 2030.



Ond eto, mae'r byd yn wynebu argyfwng addysg. Yn ôl rhagamcaniadau cyfredol, ni fyddwn yn gwireddu'r addewid hwn i blant y byd tan 2084 – dros 50 mlynedd yn hwyr. Y rhan sydd ar goll o'r pos addysg yw'r arian i droi'r addewid yn wirionedd. Yn 2017, bydd arweinwyr y byd yn addo arian i'r Bartneriaeth Fyd-eang ar gyfer Addysg, sef cyd-gronfa'r byd ar gyfer addysg. Mae'n hanfodol ein bod ni eleni yn galw ar lywodraeth y DU i chwarae ei rhan a chynyddu ei buddsoddiad mewn addysg.

Ymunwch â'r ymgyrch Danfona Fy Ffrind i'r Ysgol er mwyn gwrthdroi'r argyfwng addysg. Bydd y Pecyn Cymorth hwn yn rhoi popeth i chi y mae arnoch ei angen i gymryd rhan fel dosbarth ac ysgol. Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth.

## RHESTR WIRIO O'R HYN Y GALLWCH EI WNEUD:

### DYSGU

- ffilm ymgyrch
- straeon bywyd go iawn

### MEDDWL

- ystafell ddosbarth
- gweithgaredd

### GWEITHREDU

- ymgysylltu â'ch AS
- lledaenu'r neges



[Ffordd wych o gyflwyno'r ymgyrch i ddisgyblion eich dosbarth yw trwy ddangos y fideo 360 rhyngweithiol ardderchog hwn iddynt, lle y gall disgyblion eich dosbarth roi eu hunain yn esgidiau dosbarth ym Malawi.](#)

Sawl tebygrwydd neu wahaniaeth y gallant eu gweld rhwng yr ysgolion?

[Gwylwch y ffilm fer hon sy'n trafod pŵer addysg o safon.](#) Mae'n dangos pam y mae angen i arweinwyr y byd fuddsoddi mewn sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg o safon, a sut y gall ysgolion yn y DU chwarae eu rhan.

Dyma ddolenni i fersiynau ar:



# STORI LANA



Mae Lana yn 12 mlwydd oed ac yn dod o Aleppo yn Syria. Ynghyd â'i rhieni, ei dau frawd a'i phum chwaer, mae Lana bellach yn byw yn Jordan fel ffoadur.

“Petawn i ond yn gallu mynd yn ôl i'r ysgol. Rwy'n dwli ar fynd i'r ysgol. Ers cyrraedd Jordan, dydw i ddim wedi bod i'r ysgol o gwbl. Byddwn i wrth fy modd petawn i'n gallu mynd yn ôl a dychwelyd i fy ystafell ddosbarth, i astudio, i weld fy ffrindiau. Rydw i am fynd yn ôl i'r ysgol er mwyn gwireddu fy mreuddwydion – rydw i am fod yn athrawes Saesneg.”

Roedd Lana ym Mlwyddyn 4 pan orfododd y gwrthdaro hi a'i theulu i ffoi o'u cartref, am nad oedd yn ddiogel iddynt aros yno mwyach. Aethant ar daith hir, oer a pheryglus er mwyn cyrraedd Jordan – gan fyw a chysgu yn yr awyr agored heb gotiau, dillad cynnes, blancedi na lloches.

Pan gyrhaeddodd Lana a'i theulu Jordan o'r diwedd, roeddent yn gobeithio y yddai'n gallu parhau â'i haddysg, a dechrau ym Mlwyddyn 5 yn un o ysgolion Jordan.

Fodd bynnag, edrychodd ei mam ymhell ac agos am ysgol iddi hi a'i chwaer, ond dywedwyd wrthi fod yr ysgolion lleol yn llawn ac nad oedd lle iddynt.

Cafodd stori Lana ei rhannu gan Achub y Plant, sydd wedi bod yn gweithio i gefnogi ffoaduriaid ifanc Syria.

# STORI MABATHIO



Mae Mabathio o Dakar yn Senegal, ac mae yn ei phedwaredd flwyddyn ysgol.

“Mae'r plant eraill yn garedig iawn wrthom, ac rwy'n hoffi mynd i'r ysgol gyda nhw. Rwy'n hoffi mynd i'r ysgol ac rwy'n hoffi dysgu. Pan fyddaf yn hŷn, hoffwn weithio mewn swyddfa, efallai bod yn weinidog.”

Mae Mabathio'n ddall, ac felly am sawl blwyddyn, nid oedd yn gallu mynychu'r ysgol gan nad oedd ei rhieni'n meddwl bod hynny'n bosibl. Nid yw'r rhan fwyaf o blant sydd ag anabledd, gan gynnwys dallineb, yn mynychu ysgolion prif ffrwd yn Senegal.

Yn aml, mae hyn yn golygu na allant ddod o hyd i waith pan fyddant yn hŷn.

Fodd bynnag, mae ysgol Mabathio yn rhan o brosiect addysg gynhwysol, sy'n golygu ei bod bellach yn croesawu plant dall ac yn gwybod sut i'w haddysgu ochr yn ochr â myfyrwyr eraill.

Mae Mabathio yn defnyddio bwrdd Braille a bocs o binnau yn ei gwersi. Mae mynd i'r ysgol wedi trawsnewid bywyd Mabathio. Cyn iddi allu mynychu'r ysgol, byddai'n treulio ei hamser gartref, ond 'nawr mae'n fwy hunangynhaliol ac uchelgeisiol, ac mae ganddi ddyheadau o ran ei gyrfa.

Rhannwyd stori Mabathio gan Sightsavers, sydd wedi bod yn rhedeg y prosiect Addysg Gynhwysol yn ysgol Mabathio mewn partneriaeth â llywodraeth Senegal.

[Cliciwch yma am fwy o straeon bywyd go iawn.](#)

# GWEITHGAREDD YSTAFELL DDOSBARTH

Bydd miloedd o ysgolion ar hyd a lled y wlad yn cymryd rhan yn yr ymgyrch Danfona Fy Ffrind i'r Ysgol yn 2017, er mwyn galw ar lywodraeth y DU i gynyddu ei buddsoddiad ym mhŵer addysg.

Gyda'i gilydd, bydd pobl ifanc yn creu darnau jig-so trawiadol i ddal sylw eu Haelod Seneddol. Bydd y darnau jig-so hyn yn symboleiddio'r ffaith bod darn ar goll yn y pos addysg byd-eang – yr arian i dalu am addysg o safon.



## CAM 1

Bydd angen i bob disgybl dorri allan templed ei ysgol o Daflen 1.



## CAM 2

Ar gefndir yr ysgol mae lle i ychwanegu darnau jig-so, ac mae llawer o ddarnau i ddewis ohonynt ar Daflen 2. Mae'r darnau yn disgrifio elfennau gwahanol o addysg o safon. Er mwyn archwilio'r syniad o adnoddau prin, gall y disgyblion ddewis pum darn yn unig. Anogwch nhw i drafod ac i ddewis pa ddarnau sydd bwysicaf. [Dyma rai gweithgareddau](#) i'w hannog i feddwl am hyn. Byddant yn cael eu gorfodi i wneud rhai dewisiadau anodd, sy'n dangos bod angen mwy o arian er mwyn sicrhau bod pob elfen o addysg o safon ar gael i bob plentyn.



## CAM 3

Nawr mae gan bob disgybl gefndir ysgol wedi'i dorri allan gyda'r pum darn jig-so sydd bwysicaf yn eu barn nhw arno. Mae'n amser 'nawr iddynt ysgrifennu neges ar do'r ysgol at eu Haelod Seneddol, gan nodi pam, yn eu barn nhw, y dylai'r DU fuddsoddi mewn addysg o safon i bawb.



## CAM 4

Nawr mae'n amser addurno'r ysgolion o ddarnau jig-so, a'u gwneud mor lliwgar a thrawiadol â phosibl, er mwyn iddynt sefyll allan pan fyddant yn cael eu cyflwyno i'ch AS.



## CAM 5

Sicrhewch fod eich ysgolion o ddarnau jig-so yn cyrraedd eich AS lleol, a gofynnwch iddo eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddatblygu Rhyngwladol – sef yr unigolyn yn llywodraeth y DU sy'n gwneud penderfyniadau ar y mater hwn. Gallwch naill ai wahodd eich AS i'ch ysgol, ymweld ag ef yn ei swyddfa, neu anfon y darnau yn y post. (Gweler yr adran nesaf am fwy o fanylion).

Yr hyn y bydd arnoch ei angen:

- Llungopiâu o daflen 1 a thaflen 2 ar gyfer pob disgybl
- Siswrn
- Glud

- Pennau/pensiliau Iliwio

## YMGYSYLLTU Â'CH AS

Er mwyn cael llywodraeth y DU i gynyddu ei buddsoddiad mewn addysg o amgylch y



byd, mae angen i gynifer o Aelodau Seneddol â phosibl fod yn rhan o hyn. Bydd Etholiad Cyffredinol yn cael ei gynnal yn y DU ddydd Iau 8 Mehefin, a bydd yn rhaid aros i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi dros nos ar 8/9 Mehefin er mwyn gwybod pwy yw eich AS. ([Rydym wedi creu adnoddau am yr etholiad yma](#)).

Estynnwch wahoddiad i'ch AS lleol ddod i'ch ysgol, a chyflwynwch y darnau jig-so papur a wnaed gan eich disgyblion iddo.

Mae hwn yn gyfle ardderchog i'ch dosbarth gael gwybod rhagor am eu rôl mewn prosesau gwleidyddol, yn ogystal ag ymgyrchu dros eraill.



### CAM 1

Mae'n well aros tan ar ôl yr etholiad, pan fyddwch yn gwybod pwy yw eich AS, cyn cysylltu ag ef/hi am y cynllun Danfona Fy Ffrind i'r Ysgol. Cyn hynny, bydd yr ymgeiswyr yn canolbwyntio ar ymgyrchu ar gyfer yr etholiad. Ar ôl yr etholiad, gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt eich AS trwy fewnbynnu cod post eich ysgol ar y wefan hon: <http://findyourmp.parliament.uk>



### CAM 2

Cysylltwch â swyddfa eich AS trwy lythyr, e-bost neu dros y ffôn, ac eglurwch fod eich disgyblion yn cymryd rhan yn yr ymgyrch Danfona Fy Ffrind i'r Ysgol, sy'n galw ar lywodraeth y DU i fuddsoddi mwy ym mhŵer addysg o amgylch y byd. Rhowch wybod i'ch AS fod eich disgyblion wedi creu rhai negeseuon ar ei gyfer, ac estynnwch wahoddiad iddo ddod i'ch ysgol i'w cael.



### CAM 3

Trefnwch fod eich disgyblion yn cyflwyno eu darnau jig-so i'r AS lleol, er mwyn iddo eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddatblygu Rhyngwladol. Mae Aelodau Seneddol yn fwyaf tebygol o fod yn eu hetholaethau ar brynhawn dydd Iau a dydd Gwener, felly dyma'r diwrnodau gorau i ofyn iddynt ddod fel arfer. Oherwydd yr etholiad, bydd Wythnos o Weithredu Danfona Fy Ffrind i'r Ysgol bellach yn cael ei chynnal ar 3-7 Gorffennaf, felly byddai'n wych petaech yn gallu cwrdd â'ch AS yn ystod yr wythnos hon, os yn bosibl.



#### **CAM 4**

Paratowch ar gyfer eich cyfarfod. [Mae llawer o awgrymiadau defnyddiol yn ein Pecyn Cymorth Aelodau Seneddol yma.](#)



#### **CAM 5**

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau, a rhowch wybod i ni am unrhyw gyswllt a gewch â'ch AS trwy lenwi'r [ffurflen hon](#).

## **Lledaenwch y neges**

Er mwyn cael llywodraeth y DU i gynyddu ei buddsoddiad ym mhŵer addysg o amgylch y byd, mae angen i ni gael miloedd a miloedd o bobl i ymuno yn ein hymgyrch. Er mwyn gwneud hyn mae angen i ni ledaenu'r neges:

### **Cysylltwch â'r wasg leol.**

Cysylltwch â swyddfa eich papur newydd lleol, a gofynnwch iddi ysgrifennu stori am ran eich ysgol yn yr ymgyrch Danfona Fy Ffrind i'r Ysgol. [Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt y papur newydd ar ei wefan, a gallwch lawrlwytho datganiad i'r wasg golygadwy yma i'w anfon.](#)



### **Defnyddiwch y Cyfryngau Cymdeithasol.**

Helpwch i hybu neges yr ymgyrch trwy drydar am weithgarwch Danfona Fy Ffrind eich ysgol. Cofiwch gynnwys @sendmyfriend yn eich trydariad, er mwyn i ni allu ei weld.



*Ymunwch â mi a'm dosbarth wrth i @sendmyfriend alw ar arweinwyr y byd i fuddsoddi ym mhŵer #addysg #danfonafyfrind*

Mae'n syniad gwych tynnu lluniau cyffrous i'w cynnwys yn eich gwaith ar gyfer y wasg leol a'r cyfryngau cymdeithasol, [ac anfonwch nhw atom ni hefyd gan ddefnyddio'r ddolen hon.](#)

## **Byddwch yn Greadigol!**

Peidiwch â theimlo bod yn rhaid i chi gadw at yr hyn sydd yn y pecyn hwn – mae llawer o ffyrdd y gallai eich myfyrwyr godi ymwybyddiaeth o'r mater hwn a chefnogi'r ymgyrch – po fwyaf anghyffredin, y gorau!

- A allai eich disgyblion greu llun enfawr?
- Gwneud ffilm?

- Perfformio drama?
- Cyfansoddi cân?
- Cynnal digwyddiad yn yr ysgol?
- Cael eich grwpiau ysgol a'r cyngor ysgol i gymryd rhan?



Neu meddyliwch am eich syniadau eich hunain. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at eu clywed! Rhowch wybod i ni beth yw eich cynlluniau trwy lenwi'r [ffurflen hon](#).

**DANFONA FY  
FFRIND  
I'R YSGOL**

**Dychmygwch y pŵer sydd gan fyd lle mae pob un plentyn yn yr ysgol - uchelgeisiol ac yn dysgu.**



Handout 1



